Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Mynydd Bychan
# New Zealand Road
# Cathays
# Cardiff
# CF14 3BR

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/02/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Mynydd Bychan wedi'i lleoli yn ardal Cathays, yn ninas Caerdydd. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys Mynachdy, Gabalfa, Cathays, Y Mynydd Bychan, Sblot a'r Bae. Mae 236 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 35 o ddisgyblion meithrin rhan amser. Mae ganddi 8 dosbarth.

Mae tua 7% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 25% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ychydig o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith gartref. Mae tua 18% o ddisgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mawrth 2010. Penodwyd y pennaeth ym Medi 2007.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan yn 2015-2016 yw £3,343. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghaerdydd yw £6,099 a'r lleiafswm yw £2,901. Mae Ysgol Mynydd Bychan yn y 71ain safle o'r 96 ysgol gynradd yng Nghaerdydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yno
- medrau llythrennedd a rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn dda
- safon iaith llafaredd rhan fwyaf y disgyblion yn dda iawn yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2
- ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn
- canran presenoldeb yn gyson dda ac yn gosod yr ysgol yn gyson ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg
- staff yn cynllunio ystod eang o brofiadau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda ac yn eu hysgogi i ddysgu yn llwyddiannus
- athrawon yn llwyddo i greu awyrgylch gwaith effeithiol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn awyddus i ddysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel
- yr uwch dîm rheoli yn frwdfrydig ac yn chwarae rôl lawn wrth osod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol
- gan y llywodraethwyr wybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol
- gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu manwl sy'n cynnwys ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol sy'n seiliedig ar ansawdd yr addysgu a dysgu.
- yr ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaethau i ddatblygu lles a safonau disgyblion.
- cymuned ddysgu broffesiynol effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol ac ysgolion cynradd y clwstwr sy'n datblygu agweddau o lythrennedd a rhifedd ymysg y disgyblion yn dda

## Argymhellion

A1 Mireinio a chysoni gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol

A2 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu ymhob dosbarth yn ymateb yn llawn i anghenion pob disgybl

A3 Gwella ansawdd adroddiadau monitro fel eu bod yn amlygu'n glir agweddau penodol ar gyfer gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau cyffredinol rhan fwyaf y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae medrau meddwl y rhan fwyaf yn dda ac mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn effeithiol. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn yn erbyn eu targedau.

Er mai ychydig o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg, mae'r rhan fwyaf yn llwyddo i wneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn siarad yn glir ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau brawddeg yn llwyddiannus iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn am eu gwaith yn hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn ymateb i gwestiynau athrawon yn eiddgar ac yn esbonio eu syniadau yn glir. Mae medrau llafar disgyblion yn gryf iawn yn y ddwy iaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ystyrlon gan newid goslef llais yn briodol er mwyn cynnal diddordeb y gwrandawyr. Maent yn gallu trafod cynnwys llyfr a chymeriadau yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn rhugl a chyda mynegiant priodol. Mae'r rhan fwyaf yn gallu cywain gwybodaeth o destun yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddod o hyd i wybodaeth am wersyll Llangrannog. Erbyn diwedd y cyfnod, mae uwch fedrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent yn gallu defnyddio cynnwys a mynegai llyfrau gwybodaeth yn effeithiol ac yn defnyddio eu medrau llithr ddarllen yn llwyddiannus i ddod o hyd i wybodaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn barhaus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n effeithiol mewn ystod eang o ffurfiau, er enghraifft llunio testun ffeithiol am gastell Caerffili. Mae medrau sillafu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n unol â'u hoed â'u gallu. Mae disgyblion mwy abl yn dechrau amrywio eu brawddegau yn llwyddiannus i greu effaith. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n effeithiol i wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth lunio dadl am y glaniad cyntaf ar y lleuad. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir a diddorol gan ddefnyddio paragraffau ac atalnodi'n gywir yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf yn dewis ystod eang o eiriau yn greadigol er mwyn creu effaith. Er hyn, nid yw safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith ychydig o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 bob amser yn gyson dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn defnyddio'u medrau adio a thynnu yn llwyddiannus er mwyn datrys problemau. Mae'r rhan fwyaf yn llwyddo i ddarllen yr amser ar glociau analog a digidol i'r hanner awr a chwarter awr agosaf gyda'r disgyblion mwy abl yn darllen yr amser i'r pum munud agosaf yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn gallu

trosi ceiniogau i bunnoedd yn dda.  Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhif yn briodol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gymharu glawiad yng Nghymru â Botswana.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gadarn.  Gall y rhan fwyaf ddefnyddio'u medrau rhif yn llwyddiannus er mwyn datrys heriau mathemategol.  Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio ystod eang o strategaethau wrth ddatrys problemau rhif yn fedrus.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu cyfrifo perimedr siapiau yn gywir a gwneud defnydd pwrpasol o ddata ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu graff llinell yn annibynnol ar y tywydd ym Mhatagonia.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) wedi bod yn gyson uchel ac yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd.  Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol yn anghyson mewn datblygiad mathemategol ac wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% uwch.  Mae perfformiad ar y deilliant uwch na'r disgwyl (deilliant 6) yn gyson o dan y canolrif mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) dros y pedair blynedd diwethaf yn gyson uwch na'r canolrif yn y Gymraeg.  Mae perfformiad mewn Saesneg wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.  Yn gyffredinol, mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi dangos cynnydd, ac yn yr 50% uwch y llynedd.  Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) yn y Gymraeg wedi bod yn gyson yn yr 50% uwch o'i gymharu ag ysgolion tebyg.  Mae perfformiad mewn Saesneg yn anghyson, ac wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% is.  Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi dangos cynnydd, ac yn yr 50% uwch y llynedd.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn isel, felly nid yw cymariaethau o'u perfformiad yn erbyn perfformiad disgyblion eraill yn ddibynadwy.

**Lles:  Da**

Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini.  Er enghraifft, mae llawer yn manteisio ar glybiau chwaraeon sy'n hybu iechyd a ffitrwydd disgyblion yn effeithiol.  Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi pe baent yn gofidio.

Mae ymddygiad bron pob un yn dda iawn o fewn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol.  Dangosant barch at oedolion, ymwelwyr a'u cyfoedion.  Mae'r Criw Clên yn ofalgar iawn o eraill ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion eraill.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol.  Maent yn gallu gwella eu gwaith eu hunain yn llwyddiannus.  Mae bron bob disgybl yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu.  Mae'r rhan fwyaf yn dangos ymroddiad yn y gwersi ac yn gallu dyfalbarhau ar dasgau am gyfnodau estynedig yn dda.  Mae cyfranogiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y gwersi yn effeithiol.

Mae'r cyngor ysgol yn chwarae rhan flaengar yn yr ysgol. Mae'r aelodau yn gwrando ar farn y disgyblion eraill yn effeithiol. Trwy hyn, maent yn cael mewnbwn priodol i waith yr ysgol, er enghraifft drwy godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddiogelwch ar y wê yn effeithiol.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan werthfawr yn y gymuned. Enghraifft dda o hyn yw ymweliadau â busnesau lleol. O ganlyniad, mae ganddynt falchder yn eu cymuned leol a'r gymuned ehangach.

Mae canran presenoldeb disgyblion yn gyson dda ac ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros bedair blynedd. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer dechrau'r diwrnod ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith manwl sy'n ymgorffori egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac yn ymateb yn llawn i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'n cynnig ystod eang o brofiadau diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn eu hysgogi i ddysgu yn llwyddiannus. Mae nifer o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol ynghyd â gweithgareddau allgyrsiol yn atgyfnerthu a chyfoethogi'r dysgu yn effeithiol, er enghraifft y defnydd o arbenigwyr o'r cyfryngau i gefnogi gwaith y thema animeiddio.

Mae'r ysgol yn cyflwyno egwyddorion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol. Mae'r cynlluniau gwaith ar y cyfan yn nodi cyfleoedd addas i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd a llythrennedd yn dda ar draws amrywiol feysydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol. Trwy astudio hanes lleol, chwedlau, a gwaith beirdd ac arlunwyr o Gymru, mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiad cynaliadwy y disgyblion yn llwyddiannus drwy weithgareddau ymarferol ar safle'r ysgol sy'n cynnwys ailgylchu, lleihau defnydd o ynni a gofalu am y rhandir. O ganlyniad, mae ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd gofalu am y byd yn dda. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol. Er enghraifft, drwy gysylltiadau â gwledydd tramor, ac astudio'u ffordd o fyw yno, mae dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn datblygu'n llwyddiannus.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus a manwl. O ganlyniad, maent yn ysgogi diddordeb a brwdfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Llwydda athrawon i greu awyrgylch gwaith effeithiol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn awyddus i ddysgu. Mewn tua hanner y dosbarthiadau, lle mae'r addysgu yn greadigol, mae athrawon yn defnyddio ystod eang o adnoddau eithriadol o effeithiol er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion yn dda iawn. Yn y

dosbarthiadau hyn, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau symbylus sy'n datblygu annibyniaeth disgyblion yn llwyddiannus a chyson. Mae bron pob un o'r athrawon yn fodelau iaith da. Mae hyn yn cael effaith gadarn ar gywirdeb llafaredd y rhan fwyaf o'r disgyblion. Mae llawer o athrawon a chynorthwywyr dosbarth yn defnyddio cwestiynau agored yn effeithiol i ddatblygu medrau meddwl disgyblion yn dda. Yn yr ychydig ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw lefel yr her bob amser yn ymateb yn llawn i anghenion pob disgybl.

Mae defnydd yr athrawon o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn amrywio ar draws yr ysgol. Lle mae'r arfer yn effeithiol, mae athrawon yn cyflwyno nodau addysgol yn llwyddiannus i'r disgyblion, ac yn gosod meini prawf llwyddiant pwrpasol iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd a wneir o'r gweithdrefnau yn gyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw'r marcio bob tro'n ddigon miniog i arwain at welliant yn y dosbarthiadau hynny.

Mae gan yr ysgol systemau cynhwysfawr ar gyfer cofnodi asesiadau ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae defnydd a wna'r athrawon o'r systemau yn datblygu'n dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau gwerthfawr ar gynnydd eu plant, ynghyd â thargedau addas er mwyn gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd priodol i ddisgyblion gadw'n heini, fel rhan o'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r gweithgareddau ffitrwydd mae disgyblion hŷn yr ysgol yn eu cynllunio a'u cynnal yn ystod amser cinio.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol drwy'r ethos gofalgar sy'n bodoli ynddi. Mae sesiynau cyd-addoli yn sicrhau cyfleoedd buddiol i'r disgyblion fyfyrio ar y negeseuon, er enghraifft wrth drafod pwysigrwydd rhoi yn ogystal â derbyn wrth arwain at y Nadolig.

Mae trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer helpu disgyblion i reoli eu teimladau a datblygu hunanddelwedd a hunan-barch. Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i gefnogi hyn. O ganlyniad, mae ansawdd y gofal a'r gynhaliaeth i'r disgyblion yn dda.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar iawn ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau effeithiol i fodloni eu hanghenion. Mae'r cynlluniau addysg unigol o safon uchel ac yn nodi targedau clir, penodol a mesuradwy yn effeithiol. Caiff y rhain eu hadolygu yn rheolaidd ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad y disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae Ysgol Mynydd Bychan yn gymuned Gymreig ei naws, sydd ag iddi ethos gofalgar a chynhwysol.  Mae'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ym mhob agwedd o'i gwaith.  Mae'r ysgol yn gosod pwyslais eithriadol o uchel ar gydraddoldeb, amrywiaeth a pharch.  Datblygir gwerthfawrogiad disgyblion o wahanol ddiwylliannau yn llwyddiannus.  Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd y mae'n herio stereoteipiau yn ddychmygus.  Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd y mae'n gweithio'n agos gyda'r ysgol gyfun leol ar gynnig hyfforddiant i'r disgyblion hŷn ar herio agweddau homoffobaidd.  O ganlyniad, mae ymwybyddiaeth disgyblion o gydraddoldeb yn arbennig o dda.  Mae gan yr ysgol bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau effeithiol iawn sy'n bodloni gofynion statudol.  Mae'r staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r gwaith hwn yn ddyddiol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau dysgu sydd o ansawdd da.  Mae'r arddangosfeydd ar draws yr ysgol o safon uchel ac yn dathlu cyflawniadau'r disgyblion yn llwyddiannus.  Mae hyn yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith.  O ystyried oed yr adeilad a'r prinder lle, mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r holl ardaloedd er mwyn hybu a chyfoethogi'r dysgu yn effeithiol.  Mae'r adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer datblygu'r ysgol yn gymuned lwyddiannus.  Mae wedi rhannu'r weledigaeth hon gyda holl staff yr ysgol, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn effeithiol.  Mae'r uwch dîm rheoli yn frwdfrydig ac yn chwarae rôl lawn wrth osod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol.  Trwy gyfarfodydd rheolaidd, mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau datblygu'r ysgol yn dda.  Mae hyn wedi arwain at godi safonau perfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn llwyddiannus.

Mae strwythur staffio'r ysgol yn effeithiol ac yn galluogi'r holl athrawon a'r staff cynorthwyol, i gymryd cyfrifoldebau ar y cyd am agweddau penodol o'r gwaith.  Mae hyn yn sicrhau eu rôl lawn yng nghymuned dysgu'r ysgol.  Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad trylwyr sy'n annog staff i ddatblygu a gwella eu harfer trwy osod amcanion pwrpasol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.  Er enghraifft, mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn datblygu'n briodol, ac mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol i leihau effaith tlodi ac amddifadedd ar ddeilliannau disgyblion.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth drylwyr am berfformiad a phrosesau'r ysgol.  Maent yn diweddaru eu gwybodaeth yn rheolaidd trwy fynychu hyfforddiant perthnasol.  Maent yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cydweithio'n agos ac yn effeithiol iawn gyda'r arweinwyr i sicrhau cyfeiriad strategol clir.  Trwy gyfarfodydd rheolaidd, ac ymweliadau cyson â'r ysgol, maent yn herio'r ysgol yn llwyddiannus i gynnal a gwella'r safonau ac i sicrhau darpariaeth o ansawdd da.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn dangos bod gan arweinwyr adnabyddiaeth dda o’u hysgol. Mae gweithdrefnau hunanarfarnu’r ysgol yn fanwl ac yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol a phriodol, sy’n seiliedig ar ansawdd yr addysgu a dysgu. Mae’r trefniadau wedi gwreiddio’n gadarn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn cynnwys gweithgareddau fel craffu ar waith, monitro gwersi a chywain barn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Mae’r uwch dîm rheoli yn defnyddio’r dystiolaeth sy’n deillio o ddata profion cenedlaethol ac asesiadau mewnol yn effeithiol i adnabod cynnydd ac i nodi agweddau perthnasol i'w datblygu. Mae adroddiadau cynhwysfawr, er braidd yn ddisgrifiadol mewn mannau, yn bwydo’n effeithiol i’r ddogfen hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid yw’r adroddiadau bob amser yn amlygu’n ddigon clir yr agweddau ar gyfer gwelliant.

Mae cyswllt effeithiol yn bodoli rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn ddogfen weithredol sy’n canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae’n cynnwys blaenoriaethau penodol ar gyfer gwella. Mae'r camau gweithredu buddiol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau yn cynnwys amserlen gweithredu fanwl ac yn nodi cyfrifoldebau staff a gofynion cyllidol yn glir. Mae arweinwyr yn monitro'r cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn gyson. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion a pherfformiad yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaethau i ddatblygu lles a safonau disgyblion. Mae perthynas dda a chyfathrebu llwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a’r rhieni. Caiff newyddion am ddigwyddiadau a gwaith y dosbarthiadau ei rannu’n effeithiol trwy gylchlythyr rheolaidd, gwefan yr ysgol a chyfryngau cymdeithasol. Trwy rannu amrywiaeth o lawlyfrau defnyddiol gyda rhieni, mae’r ysgol yn sicrhau eu hymrwymiad yn y broses ddysgu. Enghraifft o hyn yw’r llyfrynnau cymorth sillafu, darllen a mathemateg. Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol yn gefnogol iawn i’w gwaith ac yn codi arian sylweddol ar gyfer prynu adnoddau. Enghraifft o hyn yw’r system electroneg maent wedi’i phrynu ar gyfer llyfrgell yr ysgol yn ddiweddar. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen y disgyblion a’u hawydd i ddarllen.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr ag amrediad eang o asiantaethau allanol, sy’n cynnwys yr awdurdod lleol, y consortiwm rhanbarthol a’r gwasanaethau iechyd a lles. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad y disgyblion.

Mae partneriaeth lwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a’r gymuned leol. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, fel gwasanaethau yn yr eglwysi, yn cryfhau’r cyswllt rhwng yr ysgol a’r gymuned leol.

Mae trefniadau da yn bodoli gyda sawl ysgol uwchradd. Caiff y disgyblion hŷn nifer o gyfleoedd defnyddiol i ymweld â’r ysgolion ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon. Mae hyn yn hyrwyddo trosglwyddo effeithiol i’r cam nesaf o’u haddysg. Mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus iawn gydag amrywiaeth o ysgolion cynradd y dalgylch i rannu arfer dda o fewn yr addysgu ac i ddatblygu llais y plentyn yng ngwaith yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cymryd rôl weithredol yn eu dysgu eu hunain.

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol gyda staff ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd y dalgylch i gyd safoni a chymedroli asesiadau. Mae hyn yn arwain at gysondeb a chywirdeb wrth lefelu gwaith disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff sy'n sicrhau ei bod yn ymateb yn llawn i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Trwy'r defnydd effeithiol o arbenigedd staff mewn gweithgareddau fel celf, cerddoriaeth dylunio a thechnoleg ac addysg grefyddol mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Defnyddir staff yn effeithiol i roi cefnogaeth i unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol gynllun manwl ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion, sy'n nodi cefnogaeth bwrpasol ar gyfer disgyblion difreintiedig. Enghraifft o hyn yw'r ddarpariaeth ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion i godi safonau mathemategol. Mae'r ysgol yn monitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion yn llwyddiannus.

Trwy broses rheoli perfformiad, mae'r ysgol yn adnabod anghenion datblygu'r staff yn dda ac yn ymateb yn briodol wrth fynd i'r afael â'r anghenion hynny.

Mae cymuned ddysgu broffesiynol effeithiol iawn yn bodoli rhwng yr ysgol ag ysgolion cynradd y clwstwr sy'n datblygu agweddau o lythrennedd a rhifedd ymysg y disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'n cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen a rhifedd rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n llwyddiannus iawn ac mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n dda er mwyn sicrhau cysondeb yn y cynllunio a'r asesu.

Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae'r pennaeth, yr ysgrifenyddes a'r corff llywodraethol yn monitro'r gwariant yn ofalus a thrwyadl.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6812180 - YSGOL MYNYDD BYCHAN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 263 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 9.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 29 | 27 | 29 | 29 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 86.2 | 85.2 | 86.2 | 96.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 27 | 29 | 29 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.1 | 88.9 | 93.1 | 96.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.7 | 11.1 | 20.7 | 34.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 27 | 29 | 29 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 89.7 | 88.9 | 86.2 | 96.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 17.2 | 18.5 | 6.9 | 34.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 27 | 29 | 29 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 89.7 | 88.9 | 96.6 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.7 | 14.8 | 48.3 | 96.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6812180 - YSGOL MYNYDD BYCHAN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 263 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 9.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 29 | 29 | 28 | 30 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 86.2 | 82.8 | 89.3 | 96.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 29 | 28 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 89.7 | 93.1 | 92.9 | 96.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 27.6 | 34.5 | 32.1 | 43.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 29 | 28 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 89.7 | 93.1 | 92.9 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 24.1 | 34.5 | 35.7 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 29 | 28 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.2 | 89.7 | 92.9 | 96.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 27.6 | 37.9 | 39.3 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 29 | 28 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.1 | 93.1 | 96.4 | 96.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 34.5 | 34.5 | 39.3 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 108 | 104<br>96%<br>98% | 4<br>4%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 108 | 104<br>96%<br>92% | 4<br>4%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 108 | 104<br>96%<br>97% | 4<br>4%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 108 | 105<br>97%<br>97% | 3<br>3%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 108 | 105<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 107 | 105<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 108 | 107<br>99%<br>99% | 1<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 108 | 107<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 107 | 102<br>95%<br>91% | 5<br>5%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 106 | 90<br>85%<br>95% | 16<br>15%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 105 | 84<br>80%<br>77% | 21<br>20%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 108 | 95<br>88%<br>84% | 13<br>12%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 79 | 67<br>85%<br>64% | 11<br>14%<br>33% | 1<br>1%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| My child likes this school. | 79 | 67<br>85%<br>73% | 9<br>11%<br>25% | 2<br>3%<br>1% | 1<br>1%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 79 | 64<br>81%<br>73% | 15<br>19%<br>26% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| My child is making good progress at school. | 75 | 49<br>65%<br>62% | 25<br>33%<br>34% | 0<br>0%<br>3% | 1<br>1%<br>1% | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| Pupils behave well in school. | 79 | 53<br>67%<br>48% | 26<br>33%<br>47% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| Teaching is good. | 76 | 52<br>68%<br>62% | 23<br>30%<br>36% | 1<br>1%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 77 | 59<br>77%<br>65% | 18<br>23%<br>33% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 74 | 36<br>49%<br>50% | 37<br>50%<br>42% | 1<br>1%<br>6% | 0<br>0%<br>2% | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 76 | 59<br>78%<br>61% | 15<br>20%<br>34% | 2<br>3%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 77 | 59<br>77%<br>61% | 18<br>23%<br>37% | 0<br>0%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| My child is safe at school. | 79 | 61<br>77%<br>67% | 17<br>22%<br>31% | 1<br>1%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 67 | 43<br>64%<br>56% | 24<br>36%<br>38% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 77 | 36<br>47%<br>50% | 36<br>47%<br>40% | 5<br>6%<br>8% | 0<br>0%<br>2% | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 78 | 53<br>68% | 23<br>29% | 1<br>1% | 1<br>1% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 67 | 32<br>48% | 30<br>45% | 5<br>7% | 0<br>0% | 12 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 74 | 52<br>70% | 22<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 50 | 37<br>74% | 11<br>22% | 2<br>4% | 0<br>0% | 27 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 76 | 42<br>55% | 33<br>43% | 1<br>1% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 78 | 65<br>83% | 12<br>15% | 1<br>1% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jonathan Cooper | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Griffith | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Meinir Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sian Evans | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.